

# Cytleri a llestri





# Cytleri a llestri

## Cyllell mewn gwain ledr

Byddai cyllell ddur fel hon, yn ei gwain ledr, yn offeryn hanfodol i bawb pump oed a throsodd yn oes y Tuduriaid. Roedd pawb yn defnyddio cyllell, at bob mathau o bethau, e.e. naddu pren, torri rhaff, torri cig.

Pan fyddech chi'n mynd i gael pryd o fwyd yng nghartref rhywun arall, roedd disgwyl i chi fynd â'ch cyllell eich hun. Fyddai neb yn disgwyl i'r gwesteiwr ddarparu cyllyll i bawb eu defnyddio.



### Sut rydyn ni'n gwybod am gyllyll mewn gweiniau lledr?

Darluniau a disgrifiadau mewn dogfennau Tuduraidd, a phethau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol. Mae sawl enghraifft ar gael yng nghasgliad ar-lein Amgueddfa Llundain.



# Cytleri a llestri

## Llwy Apostol

Ar y llwy biwter yma gallwch weld ffigur Sant Ioan yr Efengylwr. Roedd pobl yn credu bod Sant Ioan yn eu cadw rhag cael eu gwenwyno, a Sant Ioan hefyd oedd nawddsant artistiaid (oedd yn aml yn cael eu gwenwyno gan y lliwiau yn eu paent).

Roedd llwyau arian yn eitemau personol ffasiynol i bobl gyfoethog yn oes y Tuduriaid, ac yn cael eu rhoi fel arfer fel anrhegion bedydd. Roedd llwyau Apostol yn arbennig o boblogaidd gan fod pobl yr oes yn grefyddol iawn, a hyd at 1536 yr eglwys Gatholig oedd yr unig eglwys ym Mhrydain. Roedd pobl yn gweddïo bob dydd, ac yn credu mewn gweddïo i'w nawddsant i gael eu gwarchod, ac i ddod â lwc dda i rai agweddau ar eu bywyd.

Aloi metel yw piwter, rhyw 90% o alcam, yn gymysg â metelau eraill. Roedd piwter oes y Tuduriaid yn cynnwys hyd at 10% o blwm, ac roedd pobl gyfoethog oedd yn defnyddio llwyau piwter drwy'r amser yn cael eu gwenwyno'n araf gan eu llwyau.

Mae symptomau gwenwyn plwm yn cynnwys teimlo'n flin, drysu, a dechrau dioddef ffitiau. Gall gwenwyn plwm difrifol eich lladd. Does dim plwm mewn piwter modern.



### Sut rydyn ni'n gwybod am lwyau apostol?

Darluniau a disgrifiadau mewn dogfennau Tuduraidd, fel ewyllysiau, a phethau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol. Mae sawl enghraifft ar gael yng nghasgliad ar-lein yr Amgueddfa Brydeinig.



# Cytleri a llestri

## Cwpan a llwy

O gorn y mae'r cwpan a'r llwy yma wedi'u gwneud. Yn oes y Tuduriaid roedd corn yn cyfateb i blastig ein hoes ni, ac roedd yn ddefnyddiol iawn am ei fod yn ysgafn, yn gryf ac yn anodd ei dorri. Roedd yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i wneud pethau i'r tŷ a gemwaith, a byddai haenau tenau iawn yn cael eu defnyddio mewn llusernau a ffenestri, gan eu bod yn cadw'r gwynt draw ond yn gadael goleuni i mewn.

Y cwpan plaen yma yw'r math a fyddai'n cael ei ddefnyddio gan bobl dlawd. Byddai ymyl arian a gwaelod arian ar gwpan dyn cefnog, ac addurniadau wedi'u cerfio arno o bosibl.

Roedd y Tuduriaid yn defnyddio corn buchod, hyrddod a cheirw. Mae corn anifail yn cynnwys gelatin yn rhannol, ac mae'n mynd yn hydrin iawn ar ôl ei feddalu mewn dŵr berw. Wedyn mae'n bosibl ei wastatáu, ei wahanu'n ddalennau, ac yna ei siapio a'i dorri. Mae'n cael ei lathru ar ôl iddo galedu eto.

Roedd cwpanau'r Tuduriaid yn cael eu gwneud o arian, piwter, gwydr, crochenwaith, coed, lledr a chorn. Roedd llwyau'n cael eu gwneud o arian, piwter, coed, asgwrn a chorn.



### Sut rydyn ni'n gwybod am gwpanau a llwyau corn?

Darluniau a disgrifiadau mewn dogfennau Tuduraidd, a phethau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol.





# Cytleri a llestri

## Treinsiwr pren

Math o blât cynnar yw'r treinsiwr pren yma. Mae'r gair treinsiwr yn dod o hen air Ffrangeg 'tranchier', sy'n golygu 'torri'.

Yn wreiddiol, darn o fara pedwar diwrnod oedd oedd treinsiwr; a hwnnw wedi'i dorri'n sgwâr, er mwyn rhoi bwyd arno cyn ei fwyta. Byddai'r treinsiwr bara yn cael ei osod ar blât pren (pobl isel eu statws) neu blât arian (pobl uchel eu statws), a dechreuodd yr enw treinsiwr gael ei ddefnyddio wrth sôn am y plât.

Gallai'r treinsiwr pren gael ei fwyta gyda saws fel rhan o'r pryd bwyd, ond fel arfer roedden nhw'n cael eu casglu ar ddiwedd y pryd ac yn cael eu rhoi fel cardod i'r tlodion. Roedd pobl gyfoethog yn dangos mor gefnog a phwysig oedden nhw drwy roi bwyd i bobl eraill.

Coed deri yw'r treinsiwr pren yma, sef coed sydd heb aroglau na blas i ddifetha'r bwyd. Mae dau bant wedi'u cerfio yn yr wyneb, sy'n atal y bwyd rhag mynd dros yr ymyl. Bwyd oedd yn cael ei osod yn y pant mawr; ac yn y pant bach roedd halen, oedd yn dal yn ddrud iawn yn oes y Tuduriaid.



### Sut rydyn ni'n gwybod am dreinsiwrs pren?

Darluniau a disgrifiadau mewn dogfennau Tuduraidd, a phethau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol.



# Cytleri a llestri

## Tancard

Mae gwaelod y tancard llethr yma yn lletach na'r brig ac felly mae'n anodd ei daro drosodd. Byddai tancardiau llethr fel hyn yn cael eu defnyddio ar longau ac mewn tafarnau a mannau eraill lle roedd hi'n ddigon posibl y byddai llestri yfed yn cael eu taro drosodd, neu wrth deithio. Os cwmpan nhw, dydyn nhw ddim yn torri, ac mae'n hawdd eu trwsio os byddan nhw'n gollwng.

Roedd pobl dlawd hefyd yn defnyddio pethau oedd yn anodd eu torri yn eu cartrefi, a phethau a allai gael eu trwsio, a hynny am nad oedd fawr ddim arian ganddyn nhw i gael pethau newydd.

Roedd llestri llethr i ddal hylif yn cael eu leinio fel arfer, i'w hatal rhag gollwng, â phyg oedd yn cael ei wneud o resin coed pin neu resin coed bedw, neu o gŵyr gwenyn. Mae'r tancard llethr yma wedi'i leinio â 'pyg bragwr', sy'n sylwedd atal dŵr sydd wedi'i wneud o resin coed pin.



### Sut rydyn ni'n gwybod am dancardiau llethr?

Darluniau a disgrifiadau mewn dogfennau Tuduraidd, pethau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol, ac enghreifftiau a gafwyd ar long Henry VIII, y Mary Rose. Mae'r tancard yma'n gopi o un a gafwyd ar y Mary Rose.



# Cytleri a llestri

## Cwpan yfed arian

Pobl gyfoethog fyddai wedi defnyddio'r cwpan yfed arian yma, wrth y prif fwrdd mewn neuadd Duduraidd efallai, neu wrth deithio, gan fod gwydr yn rhy fregus i'w ddefnyddio wrth deithio. Byddai'n cael ei ddefnyddio i yfed gwin, medd, neu ddiodydd cryfach, gan ei fod yn rhy fach ar gyfer cwrw.



### Sut rydyn ni'n gwybod am gwpanau arian?

Darluniau a disgrifiadau mewn dogfennau Tuduraidd, a phethau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol. Mae'r cwpan hwn yn debyg i Gwpan Cassel, sydd i'w weld yn amgueddfa'r V&A, Llundain.



# Cytleri a llestri

## Costrel

Byddai'r botel neu'r fflasg ledr gryf yma'n cael ei defnyddio i gario hylif wrth deithio, wrth weithio neu ar faes y gad. Mae ganddi gortyn i'w chario; a chaead pren sydd wedi'i glymu â chortyn lliain i'w atal rhag mynd ar goll.

Roedd fflasgiau lleidr yn cael eu gwneud drwy dorri dau ddarn o ledr, eu mwydo, ac wedyn clampio'r ddau ddarn gwlyb mewn mowld a'u gadael i sychu dros nos. Byddai ymylon y lleidr yn cael eu tyllu, a'u gwnio at ei gilydd ag edau lliain oedd yn cael ei fwydo mewn cŵyr gwenyn i'w atal rhag gollwng dŵr. Byddai cymysgedd tawdd o gŵyr gwenyn a phyg pin yn cael ei ddefnyddio i leinio'r tu mewn. Roedd hynny'n atal y lleidr rhag gollwng ac yn ei gadw'n hyblyg. Byddai caead pren yn cael ei gerfio o goed bedw neu fasarn.



### Sut rydyn ni'n gwybod am gostreli?

Darluniau a disgrifiadau mewn dogfennau Tuduraidd, pethau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol, ac enghreifftiau a gafwyd ar long Henry VIII, y *Mary Rose*. Mae'r gostrel yma'n gopi o un a gafwyd ar y *Mary Rose*.

